

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd
Dydd Mercher 20 Ionawr 2021, 11.30-1pm
Telegynhadledd



<p><u>Yn Bresennol</u></p> <p>Aelodau'r Bwrdd: Y Cynghorydd Huw Thomas (Cadeirydd) Paul Orders Gareth Newell Charles Janczewski (Is-gadeirydd) Fiona Kinghorn Abigail Harris Keith Meredith Mike Evans Sheila Hendrickson-Brown Alun Michael Mark Brace Wendy Gunney Hannah Williams</p> <p>Ymddiheuriadau: Gareth O'Shea Len Richards Huw Jakeway Sarah McGill Jo Salway</p> <p>Hefyd yn bresennol: Anne Wei Nathan Swain Clive Bailey</p>	<p>Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC)</p> <p>Prif Weithredwr, CC Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP CaF)</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro Rheolwr Grŵp, GTADC Cyfoeth Naturiol Cymru Prif Swyddog Gweithredol, C3SC Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro Prif Swyddog Tân, GTADC Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru</p> <p>Rheolwr Partneriaeth a Chynllunio Strategol Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC</p>
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rhif	Eitem Agenda	
1/2	<p>Croeso a Chyflwyniadau</p> <p>Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p> <p>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2020 a nododd y Cadeirydd fod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.</p>	
3.	<p>Diweddariad COVID-19</p> <p>Cafwyd trafodaeth ar y potensial ar gyfer rhannu neu arddangos diogelwch cymunedol a gwybodaeth partner arall BGC mewn canolfannau brechu. Cytunodd Fiona Kinghorn i ystyried hyn.</p> <p>Darparodd Fiona Kinghorn drosolwg ar y ffigurau diweddaraf ar gyfer Covid-19 yng Nghaerdydd, gan nodi bod achosion yn gostwng ond yn parhau i fod yn gymharol uchel. Mae brechu cartrefi gofal yn mynd rhagddo'n dda ond gallai gael ei oedi mewn rhai amgylchiadau lle mae gan gartref gofal achos positif. Mae olrhain cysylltiadau yn gweithio'n effeithiol, er bod teithwyr sy'n dychwelyd yn creu problemau.</p> <p>Nododd Charles Janczewski bod pwysau ysbyty yn lleihau, ond bod mwy o welyau'n cael eu defnyddio ar gyfer cleifion Covid nag ar gamau blaenorol y pandemig. Mae gofynion ynysu yn rhoi pwysau ychwanegol ar feddygfeydd, optometryddion a deintyddion, ond ar y cyfan mae'r gwasanaethau hyn yng Nghaerdydd yn gweithio'n dda.</p> <p>Amlygodd Abigail Harris y negeseuon pwysig nad yw derbyn y brechiad yn golygu bod unigolyn yn imiwn neu'n methu trosglwyddo Covid-19. Rhaid cadw at reolau a chyfyngiadau o hyd.</p> <p>Mae'r broses o gyflwyno brechiadau yn mynd yn ei flaen yn dda. Dylai categorïau 1-4 gael eu brechu erbyn canol mis Chwefror.</p> <p>Rhodddwyd cyfle i bob sefydliad roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu camau ailgychwyn ac adfer priodol.</p> <p>Mae'r materion allweddol a amlygwyd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Llywodraeth Cymru yn trafod gyda'r Cyngor gynlluniau tymor hir ar gyfer capasiti pe bai ymchwydd yn genedlaethol • Mae problemau ymysg y boblogaeth o fyfyrwyr yn ailymddangos. Mae swyddogion cyswllt yn gweithio i leihau'r angen am orfodi drwy hysbysiadau cosb benodedig. • Mae Ceri Knight wedi'i dewis fel swyddog cyfathrebu iechyd i fwydo barn a phryderon cymunedol 	Fiona Kinghorn

Rhif	Eitem Agenda	
	<p>Cam Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sheila Hendrickson-Brown i gyfeirio unrhyw farn ar frechu sy'n codi o fewn cymunedau i Ceri Knight mewn lechyd i lywio negeseuon. 	Sheila Hendrickson-Brown
4.	<p>YAC2</p> <p>Cyflwynodd Abigail Harris gynlluniau ar gyfer UHW2, gan dynnu sylw at y cyfleoedd y mae'n eu cyflwyno i Gaerdydd a rhanbarth ehangach De Cymru. Bydd Achos Busnes Rhaglen UHW2 yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021.</p> <p>Nodwyd cyfleoedd i gydweithio â phartneriaid BGC mewn nifer o feysydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu ffocws ar atal ac ymyrryd yn gynnar yn y model gofal system gyfan • Cynlluniau sefydliadau partner, fel cynlluniau Carbon Sero. <p>Cynigiwyd cyfle i bartneriaid fwydo eu barn neu drefnu digwyddiadau / cyfarfodydd penodol i drafod y cynlluniau.</p> <p>Darparodd Abigail Harris ddiweddariad byr hefyd ar Felindre.</p>	
5.	<p>Diogelwch Cymunedol</p> <p>Rhoddodd Wendy Gunney ddiweddariad plismona ar y digwyddiadau lleol yr wythnos diwethaf. Amlygwyd y gallai ymchwiliad yr IOPC gymryd hyd at 18 mis i gyflawni ei ganfyddiadau.</p> <p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gohebiaeth a anfonwyd at ASau a Chynghorwyr lleol i'w dosbarthu i aelodau BGC • Sheila Hendrickson Brown a Comisiynydd Heddlu a Throseddu Alun Michael i drafod canfyddiadau cymunedol a chyfathrebu'r heddlu. • Ail-gomisiynu Camddefnyddio Sylweddau i fod yn eitem ar agenda Chwefror BGC. <p>Mynegodd y Comisiynydd Alun Michael yr angen i ystyried negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol fel rhan o fwrw ymlaen ag argymhellion yr Aseiad Anghenion lechyd ar chwistrellu'n gyhoeddus. Bydd hyn yn cael ei ystyried gan y Bwrdd Diogelwch Cymunedol ac yna'n cael ei drafod mewn cyfarfod BGC yn y dyfodol.</p>	<p>Wendy Gunney Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Sheila Hendrickson-Brown / CSP</p> <p>Ysgrifenyddiaeth</p>

Rhif	Eitem Agenda	
6.	<p>Cyfrifiad 2021</p> <p>Amlinellodd Gareth Newell bwysigrwydd y data a gasglwyd trwy Gyfrifiad 2021. Yn sgil problemau technegol cadwyd yr eitem hon yn fyr.</p> <p>Cam Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodyn briffio i'w ddsbarthu i'r Bwrdd a'r eitem hon i'w hailystyried yng nghyfarfod nesaf y BGC ym mis Chwefror. 	Ysgrifenyddiaeth
7.	<p>Unrhyw Fusnes Arall ac Edrych tua'r Dyfodol</p> <p>Efallai y bydd angen cyfarfod BGC ychwanegol ar fyr rybudd i drafod ehangu rhaglen frechu Covid-19</p> <p>Chwefror 2021</p> <ul style="list-style-type: none"> • BIP Caerdydd a'r Fro: Llunio ein rhaglen Gwasanaethau Clinigol • Ymateb Craffu: Iechyd Meddwl Plant a Chymorth a Gwasanaethau Lles 	Ysgrifenyddiaeth
	<p>Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • BGC Caerdydd, 23 Chwefror 2021 • BGC Caerdydd, 16 Mawrth 2021 	